



Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio

Ariannwyd drwy'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesi a Chynghori, rhan o Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru, – Datblygu Gwledig 2014-2020

Hugh Brookes

Awstria

Rheolaeth effeithiol moch Mangalitza gan ganolbwyntio ar fwydo

12-19 Tachwedd 2017

1 Cefndir

[Pam aethoch chi? *Rhowch rywfaint o wybodaeth gefndir amdanoch chi'ch hun a'ch system ffermio, beth oedd eich bwriad a rhowch drosolwg o nodau ac amcanion eich cyfnewidiad*]

Fe brynon ni genfaint o foch Mangalitza oddi wrth John Osborne o Fferm Paddock, Swydd Rydychen yn 2016. Roedd e wedi'u mewnfario nhw oddi wrth Isabell a Christoph Wiesner o Wischathal yn Awstria, sy'n cael eu cydnabod yn eang fel rhai sydd ymysg y mwyaf arbenigol yn y byd o ran ffermio, lladd a phrosesu moch Mangalitza.

Rydyn ni wrthi'n arloesi dull naturiol o ffermio'n moch Mangalitza ni yn y Gorllewin a hynny yn yr awyr agored, gan aeddfedu'r moch yn araf, ac mae wedi bod yn anodd cael gafael ar yr wybodaeth angenrheidiol. Y rheswm am hynny yw bod bridiau moch modern sy'n

aeddfedu'n gyflym, systemau dan do a bwydydd cyfansawdd mor gyffredin yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru'n arbennig. Rydym ni wedi gwneud



cynnydd o ran dod o hyd i'n cwsmeriaid cyntaf a sicrhau adnoddau bwyd naturiol ond mae'n amhosibl ymateb i gwestiynau'n cwsmeriaid am effaith y gwahanol fathau o fwyd ar ansawdd y cig a'r braster, nac am ladd moch Mangalitza a *charcuterie* yn benodol.

Mae Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswllt Ffermio wedi bod yn gyfle imi weld y fferm lle cafodd ein moch ni eu bridio, gweld sut mae'r moch yn cael eu cadw a'u bwydo, sut mae'r fferm yn rheoli'r baeddod wrth serfio, sut mae'r hychod yn porchella a hefyd gweld Christoph Wiesner wrth ei waith gyda'i foch ac wrth eu lladd a gwneud *charcuterie* ar y fferm.

2 Y daith o ddydd i ddydd

[Beth ddysgoch chi? *Rhowch ddisgrifiad o'ch gweithgareddau ar bob diwrnod o'ch ymweliad ac amlinellwch y deilliannau dysgu allweddol a'r wybodaeth a godwyd]*

Diwrnod 1 – Adeiladau, Bwyd a Bridio

Mae bwyd moch y Wiesners wedi'i seilio ar datws wedi'u coginio, sef adnodd lleol rhad iawn, a grawnfwydydd. Gwelais sut roedd y rhain yn cael eu storio, eu coginio a'u rhannu i'r caeau pesgi, llociau'r baeddod, caeau'r hychod a'r llociau porchella. Rhoddodd Christoph gyngor ar sut mae'n codi'r adeiladau i'w foch a dangos ei lociau bridio. Beth ddysges i?

- Roedd adeiladwaith y llociau'n llawer mwy syml na'n llociau ni ac fe ddealles i'n gyflym sut i godi llawer mwy o lociau o wahanol fathau, gan gynyddu'r niferoedd yn yr adeiladau'n fwy cost-effeithiol.
- Roedd y lle ar gyfer porchella'n llawer llai na'n lle ni, gyda sawl lloc bach lle mae gan bob hwch ei lloc ei hun ond lle mae hefyd yn cael cwmni hychod eraill. Mae hyn yn golygu hefyd fod yr holl hychod sy'n porchella a'r holl berchyll mewn un lle i gael eu rheoli'n rhwydd.
- Mae bwydo gwellt neu wair bob dydd yn rhoi brasfwyd a hefyd yn rhoi rhywbeth i'w llenwi i'r moch a rhywbeth i'w cadw'n brysur.
- Bydd moch yn porchella tan ymhell i mewn i'w harddegau ar yr amod eu bod yn cael eu cadw'n dorrog heb adael iddyn nhw fynd yn rhy dew.
- Nid yw'n anarferol i foch fridio ag un hwch neu faedd dewisol yn unig – dylem fod yn effro i hyn.
- Mae Christoph yn defnyddio baedd 'wrth gefn' – un sy'n cael crwydro gyda'r hychod sydd wedi'u paru – gan sicrhau ail gyfle i hwch sydd heb gyfebru fel y gobeithiwyd.
- Roedd moch i'w pesgi'n cael eu gosod mewn grwpiau cymysg am fod Christoph yn ysbaddu'r baeddod i gyd pan fôn nhw'n fach. Mae'n argymhell gwneud hyn o ran hwylustod rheoli ac fe af fi ar ôl hyn gyda'n milfeddyg ni.
- Gwelwyd nad oedd fawr o sail i'n pryderon ni am fwd – rhywbeth sy'n anochel wrth ffermio yn ein hardal ni. Gwres yw problem y Mangalitza yn hytrach nag oerfel, ac mae haen o fwd yn gwarchod rhag oerfel a gwres.
- Fe allai fod yn well inni gael tylciau symudol heb loriau, o safbwynt eu symud o gwmpas yn hawdd ac er mwyn osgoi dal dŵr y tu mewn.
- Mae llwyfan o baledi â gwellt arnyn nhw yn fodd i'r moch ddringo allan o'r mwd.
- Dylai taflu gwellt i'r tylciau symudol bob dau neu dri diwrnod fod yn ddigon i roi lle sych.

Diwrnod 2 – Lladd, cigyddu, maeth

Ces i'r cyfle i weld y broses lladd a chigydda draddodiadol o'r dechrau i'r diwedd. Beth ddysges i?

- Y "safon aur" o ran lladd heb straen – gan roi meincnod imi ar gyfer cloriannu sut mae'n moch ni'n cael eu lladd.
- Beth sy'n creu brithder mewn cig – yn achos moch Mangalitza mae Isabell o'r farn nad yw brithder yn bwysig.
- Sut i adeiladu tŷ moch syml.
- Roedd Isabell yn credu bod ein trefn fwydo ni'n un dda ond roedd hi'n rhyfeddu at y dogn caws – gallai weld y gwerth i'r perchyll ond roedd hi'n meddwl ei fod yn ormod o foethusrwydd i foch hŷn.
- Roedd Christoph yn canu clodydd cig y moch hŷn: nid rhywbeth i gael gwared arno'n rhad oedd cig hwch deg neu bymtheg oed, ond rhywbeth a ddylai gael ei werthfawrogi.

Diwrnod 3 – Bwydo, bridio a charcuterie

Ymunes i â Christoph wrth iddo fynd i fwydo'r moch a bu'n esbonio sut i newid y ddeiet er mwyn creu mwy neu lai o fraster ar y mochyn. Esboniodd ei gyfleusterau hyblyg iawn at borchella yn yr awyr agored.

Yn ystod y prynhawn bues i'n gwyllo Isabell yn gwneud crwst pwff â bloneg Mangalitza ac wedyn ces weld y gwahanol doriadau *charcuterie* y bydd Christoph yn eu defnyddio. Gwylies i Christoph yn paratoi *charcuterie* â halen a dŵr hallt. Mae hyn yn bwysig hefyd am fod ein cwsmer wedi gofyn inni ddarganfod sut y gallai yntau ddefnyddio cig Mangalitza ar gyfer *charcuterie*. Beth ddysges i?

Bwydo

- Mae bwyd sy'n cynnwys llawer o brotein yn arwain at gymhareb uwch o ran cig-i-fraster tra bydd carbohydradau'n rhoi llawer mwy o floneg.
- Ym marn Christoph, maidd (sy'n cael ei ddefnyddio gennyn ni) yw un o'r bwydydd gorau y gallwch ei roi i fochyn.
- I besgi moch yn yr un modd ag e, byddai angen inni eu bwydo â grawn yn unig (sef rhyg yn ddelfrydol) a maidd.
- Mae brithder yn deillio o Gronni braster yn fwriadol rhwng y cyhyrau. Mae hyn yn dod yn sgil lleihau lefelau protein ac aeddfedu am gyfnod hirach.
- Mae mes yn creu cig gwych at *charcuterie* ond yn andwyol o ran y braster. I gael ham tebyg i ham Serrano, defnyddiwch y cig ond torrwyd y braster i ffwrdd.
- Gall moch godi grawn oddi ar dir mwldyd gwlyb ond fyddan nhw ddim yn dod o hyd yn hawdd i ronynnau hollt neu ronynnau wedi'u malu sy'n llai na 2mm o ran eu maint. Dylai grawn cyfan gael ei fwydo ac mewn gwirionedd fe allen nhw basio drwy'r mochyn cyntaf cyn cael eu bwyta eto gan fochyn arall, o'r baw.
- Mae diwrnod heb fwyd yn gorfodi'r moch i 'lanhau' eu tir drwy glirio'r bwyd y maen nhw wedi'i adael.

Bridio

- Mae hychod magu a baeddod yn aros yn ffrwythlon ymhell i'w harddegau ac weithiau'n hirach byth.
- Gall baeddod a hychod gael blynyddoedd diffryth, felly mae'n werth gweithio gyda nhw i adfer eu ffrwythlondeb. Weithiau bydd baedd neu hwch yn bridio gydag un partner penodol yn unig. Mae angen i hychod hŷn nad ydyn nhw'n bridio golli pwysau. Mae cot o flew trwchus yn dangos bod yr hwch yn defnyddio'i hegni at rywbeth heblaw ei ffrwythlondeb. Mae diffyg cot drwchus yn awgrymu bod yr hwch yn un a all fagu'n iach.
- Dywedodd Christoph na fydd hychod sy'n bridio ar ôl cyrraedd aeddfedrydd rhywiol ond nid aeddfedrydd corfforol yn llwyddo i dyfu i'w potensial llawn: mae'n ymddangos ein bod ni wedi profi hyn yn ddamweiniol yn ein cenfaint ni'n hunain o ganlyniad i aeddfedrydd annisgwyl baedd o dorraid ifancach na'r banwesod yr oedd yn rhannu cae gyda nhw.

Charcuterie

- Dysges i sut i falu'r 'bloneg deiliog' o'r tu mewn i gorff y mochyn i greu braster meddal a all gael ei chwipio a'i gyfuno â blasau i greu enllyn neu ddip, neu ei ddefnyddio i wneud crwst pwff.
- Dysges i sut i wneud 'spec' - dyma'r term cyffredinol (a allai fod yn ddisgrifiad rhanbarthol, sef unrhyw *charcuterie* sy'n cael ei wneud o groen, braster a chig. Rhai o'r mathau gwahanol yw lwyn (Lomo), coes (ham), gwddf (copa) a bola (ar gyfer bacwn Americanaidd).

3 Y Camau Nesaf

[Beth wnewch chi nesa? Byddwch wedi codi gwybodaeth werthfawr ar eich taith gyfnewid a ddylai fod yn fodd ichi roi rhai o'ch syniadau newydd ar waith neu newid sut rydych chi'n rhedeg eich busnes. Gosodwch bwyntiau gweithredu i chi'ch hun a'r camau nesaf i'w cymryd er mwyn adeiladu ar yr wybodaeth a gawsoch ar yr ymweliad a sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio.]

Creodd dulliau gwaith Christoph ac Isabell argraff fawr arna i a des i'n ôl yn awyddus iawn i esbonio'r rhain a'r dewisiadau maen nhw'n eu cynnig i ni o ran gwelliannau:

- **Symleiddio** ein dulliau bwydo a'n hadeiladau ni yn unol â chynllun adeiladau Christoph a'i ganllawiau maeth.
- **Arbrofi â chysgodfannau llai, cludadwy** sy'n rhatach i'w gwneud na thylciau symudol ac sy'n gallu cael eu datgymalu a'u symud i dir newydd, glân. *Cafodd y twlc symudol cyntaf ei adeiladu ar 26 Tachwedd 2017.*
- Gosod gwellt/miscanthus fel **sarn yn y cysgodfannau a'r tylciau symudol** 2-3 gwaith yr wythnos. Arbrofi â thylciau symudol heb loriau (sef cysgodfannau maes mewn gwirionedd).
- **Yn ystod y gaeaf, defnyddio betys porthiant yn lle ffrwythau/llysiau** pan fydd llai o ffrwythau a llysiau ar gael a'r rheiny'n costio mwy. Mae'r carbohydradau'n helpu i gadw'r moch mewn cyflwr da yn ystod y misoedd oer. Byddwn yn parhau i gymryd ffrwythau a llysiau rhad neu ddi-dâl gan ein cyflenwr drwy'r gaeaf yn ôl beth sydd ar gael, er mwyn cadw'n perthynas gref.
- **Sefydlu storfeydd bwyd mawr** fel bod modd dod â swmp o fwyd yn syth i ochr y caeau ar ôl iddo gyrraedd, gan leihau'r llwyth gwaith.
- **Dechrau defnyddio diwrnod heb fwyd** er mwyn i'r caeau gael eu glanhau.
- **Ystyried pa mor ymarferol a beth yw cost ysbaddu** baeddod bach – *Daeth y milfeddyg i'r fferm ar 1 Rhagfyr 2017 ac ysbaddu 39 o berchyll.*
- **Isrannu un o'n caeau mawr** yn gaeau bach i'r hychod fwrw eu perchyll, gyda llociau unigol i'r hychod.
- **Arbrofi wrth wneud charcuterie**
- **Ystyried sut y gallen ni ddefnyddio'n traciau caled** ar gyfer ein rownd fwydo, er mwyn osgoi troi'n llwybrau glaswellt i gyd yn llaid.
- **Marchnata hychod hŷn** ar sail y sicrwydd roddodd Christoph ynghylch ansawdd y cig.
- **Marchnata'n moch fel rhai sydd wedi'u bwydo â maidd** a hynny'n fwy rhagweithiol.

4 Negeseuon Allweddol i'r Diwydiant

[Un o'r gofynion ynglŷn â chymryd rhan yng Nghyfnawidfa Rheolaeth Cyswllt ffermio oedd eich bod yn dod â chanfyddiadau allweddol yn ôl i'w rhannu gyda gweddill y diwydiant ar ôl ichi ddod adre. Rhestrwch y canfyddiadau neu'r negeseuon allweddol yr hoffech eu rhannu gyda'r diwydiant]

Yn Awstria fe weles i'r gorau posibl o ran lles wrth i foch Mangalitza gael eu ffermio'n naturiol yn yr awyr agored. Roedd yr anifeiliaid yn byw bywyd cyffyrddus, bodlon mewn amgylchedd oedd mor agos â phosibl at eu ffordd naturiol o fyw.

Rwy'n edrych ar ddull Christoph ac Isabell fel y safon aur a hoffwn fabwysiadu eu dulliau nhw ar fy fferm innau, rhannu'r ffordd yma o ffermio gyda phobl eraill ac agor deialog gyda deddfwyr ar gwestiwn lladd ac ysbaddu ar y fferm.

Gallaf rannu'r negeseuon ychwanegol a ganlyn hefyd.

1. Gall moch Mangalitza fridio ymhell i mewn i'w harddegau – peidiwch â rhoi hwch neu faedd heibio: ceisiwch gael yr anifail i golli pwysau a derbyn partneriaid gwahanol.

2. Mae moch Mangalitza'n galed ac yn gallu byw mewn adeiladau syml a rhad – a dweud y gwir maen nhw fel pe bai'n well ganddyn nhw gysgodfan maes na thwlc symudol.
3. Gall baedd wrth gefn leihau tymhorau gwastraff ac osgoi hychod gwag. Mae angen i'r baedd wrth gefn fod o frid (lliw) gwahanol i'r prif faedd er mwyn gwybod p'un oedd y tad ar ôl i'r perchyll gael eu geni.
4. Proses syml, gyflym a di-straen i raddau helaeth yw ysbaddu ar y fferm gan y ffermwr. Mae modd ysbaddu heb dalu ffioedd i alw ar y milfeddyg na ffi am bob porchell. Mae'n gwneud llawer i hwyluso rheolaeth y stoc nad yw'n bridio gan fod y moch i gyd yn gallu rhannu tir a chysgodfannau. Mae hyn yn bwysig o ran moch sy'n cael eu cadw am fwy na blwyddyn ar ôl cyrraedd aeddfedrwydd rhywiol. Hefyd, gan fod yna bosibilrwydd o ddefnyddio dim ond hanner cymaint o gaeau, mae'n cynnig cyfle i'r tir orffwys ac ymadfer.
5. Dwi wedi cael fy narbwylllo bod lladd ar y fferm yn llawer mwy trugarog ac mae yna dystiolaeth bod ansawdd y cig a'r braster gryn dipyn yn uwch am fod llai o ddŵr a hormonau sy'n gysylltiedig â straen (e.e. epineffrin/adrenalin) yn y cyhyrau, pan na fydd yr anifail yn dioddef straen adeg ei ladd.
6. Mae maidd yn fwyd rhagorol i foch ac mae'n cael ei greu mewn swmp fel gwastraff yn sgil gwneud caws. Mynnwch beth os gallwch chi!







*Nodwch os gwelwch yn dda fod yr adroddiad hwn yn dogfennu dulliau traddodiadol a welwyd yn ystod ymweliad â Awstria ac ddim yn adlewyrchiad o ymarfer da a chydymffurfiaeth gyda safonau Lles Anifeiliaid a'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn y DU.